COMISIWN ELUSENNAU
AR GYFER CYMRU A LLOEGR

CANLLAWIAU

# Cwynion am elusennau



TACHWEDD 2012

Fformat newydd Ebrill 2017

# Cynnwys


1. Cyflwyniad 2

2. Cwynion: beth y mae angen i chi ei wneud a beth y mae angen i chi ei wybod 4

3. Gwneud cwyn o dan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 a elwir hefyd yn 'chwythu'r chwiban' 9

4. Adroddiadau gan archwilwyr ariannol ac archwilwyr annibynnol 12

5. Rhestr o dermau technegol a ddefnyddir yn y canllaw hwn 14

# 1. Cyflwyniad

## 1.1 Y canllaw hwn

Mae elusennau yn sefydliadau annibynnol sy'n cael eu rhedeg gan ymddiriedolwyr; maent yn chwarae rhan bwysig yn ein cymdeithas ac mae gan nifer ohonom gysylltiad â nhw fel ymddiriedolwyr, gwirfoddolwyr, drwy ddefnyddio eu gwasanaethau neu fel rhoddwyr. Weithiau bydd achos gan bobl i gwyno am elusennau a byddant yn troi at y Comisiwn Elusennau fel y rheoleiddiwr elusennau yng Nghymru a Lloegr i weithredu ar eu cwynion.

Mae'r canllaw hwn yn esbonio pryd y byddwn, a phryd na fyddwn yn ystyried y pryderon a adroddir i ni am elusennau.

## 1.2 Rôl y Comisiwn Elusennau

Y Comisiwn Elusennau yw rheoleiddiwr annibynnol elusennau. Ein gwaith fel rheoleiddiwr yw sicrhau bod elusennau'n atebol, yn cael eu rhedeg yn dda a'u bod yn bodloni eu rhwymedigaethau cyfreithiol. Mae ein gwaith yn golygu y gall y cyhoedd fod yn hyderus wrth roi eu cymorth i elusennau a gall buddiolwyr deimlo'n hyderus am y gwasanaethau a dderbyniant.

Mae ein gwaith rheoleiddio ag elusennau yn cael ei wneud drwy roi arweiniad a gwybodaeth arall ar arferion gorau, gan ddefnyddio ein pwerau cyfreithiol i wneud Cynlluniau a Gorchmynion ar gyfer gweinyddu elusennau mewn achosion arbennig ac ymyrryd mewn materion os oes risg difrifol o niwed sylweddol i elusennau neu gamddefnyddio elusennau, eu buddiolwyr neu eu hasedau.

Ni fydd pob cwyn wedi'i chynnwys yn y categori risg difrifol hwn, ac o ganlyniad ni fyddwn yn gweithredu bob amser ar gyfer pob problem neu anghydfod sy'n codi neu sy'n cael ei ddwyn at ein sylw.

Nid ydym yn gweithredu fel gwasanaeth cwyno sy'n ystyried pob cwyn ar ran achwynwyr. Rydym yn asesu ac yn penderfynu a oes problem neu bryder rheoleiddio sy'n gofyn i ni weithredu. Efallai y byddwn yn gwrthod ystyried mater os ydym o'r farn nad yw er lles y cyhoedd i ddefnyddio ein hadnoddau i ymchwilio neu ddatrys y mater.

Mae adran 2 yn ystyried pryd byddwn a phryd na fyddwn yn gweithredu a pha gamau y dylech eu cymryd pan fydd cwyn gennych am elusen.

Nid ydym yn rheoleiddio elusennau sydd wedi'u lleoli ac sy'n gweithredu yn yr Alban neu Ogledd Iwerddon, lle mae deddfwriaeth wahanol yn gymwys. Mae manylion am y rheoleiddwyr elusennau yn yr Alban a Gogledd Iwerddon i'w gweld yn adran Dd.

## 1.3 Cwmpas y canllaw hwn

Mae'r canllaw hwn yn ymwneud â'r cwynion sydd gennych am elusennau; nid yw'n cynnwys y cwynion sydd gennych am ein lefel gwasanaeth neu yn erbyn ein penderfyniadau. Os ydych yn cwyno am y Comisiwn a'i wasanaeth neu, fel rhywun sy'n gysylltiedig ag elusen, rydych am i ni adolygu penderfyniad ar fater arbennig, gweler **Gwneud Cwyn**.

## 1.4 Defnyddio'r canllaw hwn

Mae pennawd pwnc gan bob adran ac o dan y pennawd gofynnir cwestiynau perthnasol y byddwch efallai yn eu gofyn ynghylch sut yr ydym yn delio â chwynion am elusennau. Yn gyffredinol rhown ateb cryno ('Yr ateb byr') ac yna mwy o gefndir ('Yn fwy manwl').

Fe welwch restr o dermau yn adran 5 tua diwedd y canllaw hwn.

## 1.5 Ffynonellau eraill o gymorth a chyngor

Mae ein gwaith sy'n ymwneud â chwynion yn canolbwyntio ar roi'r wybodaeth iawn i elusennau a'u cael nhw i ddefnyddio'r holl adnoddau sydd ar gael iddynt i ddatrys problemau eu hunain. Ceisiwn annog ymddiriedolwyr i ddefnyddio arbenigedd sefydliadau perthnasol i'w cynorthwyo i redeg eu helusennau mewn modd mor effeithiol â phosibl. Gallant geisio cymorth ar faterion a godir gan achwynwyr mewn sefydliadau heblaw'r Comisiwn.

Fe welwch fanylion cyswllt ar gyfer yr holl sefydliadau a nodir yn y canllaw hwn yn adran Dd.

## 1.6 'Rhaid' a 'dylai': beth ydym yn ei olygu

Yn y canllaw hwn:

- mae 'rhaid' yn golygu rhywbeth sy'n ofyniad cyfreithiol neu reoleiddiol neu'n ddyletswydd y mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr gydymffurfio â hi
- mae 'dylai' yn golygu rhywbeth sy'n arfer da y mae'r comisiwn yn disgwyl i ymddiriedolwyr ei dilyn a'i chymhwyso i'w helusen nhw

Bydd dilyn yr arfer da a nodwyd yn y canllaw hwn yn eich helpu i redeg eich elusen yn effeithiol, osgoi anawsterau a chydymffurfio â'ch dyletswyddau cyfreithiol. Mae elusennau'n amrywio o ran eu maint a'u gweithgareddau. Ystyriwch a phenderfynwch ar y ffordd orau o gymhwyso'r arfer da yma i amgylchiadau eich elusen. Mae'r comisiwn yn disgwyl i chi allu esbonio a chyfiawnhau eich ymagwedd, yn arbennig os ydych chi'n penderfynu peidio â dilyn yr arfer da yn y canllaw hwn.

Mewn rhai achosion ni fyddwch yn gallu cydymffurfio â'ch dyletswyddau cyfreithiol os nad ydych yn dilyn yr arfer da. Er enghraifft:

| Eich dyletswydd gyfreithiol | Mae'n hollbwysig eich bod chi'n |
|---|---|
| Gweithredu er lles gorau'ch elusen | Delio â gwrthdaro buddiannau |
| Rheoli adnoddau eich elusen mewn modd cyfrifol | Gweithredu rheolaethau ariannol priodol<br>Rheoli risgiau |
| Gweithredu gyda gofal a sgil rhesymol | Ceisio cyngor priodol pan fydd ei angen arnoch, er enghraifft, pan fyddwch yn prynu neu'n gwerthu tir, neu'n buddsoddi (mewn rhai achosion mae hyn yn ofyniad cyfreithiol) |

Gall ymddiriedolwyr sy'n torri eu dyletswyddau cyfreithiol fod yn atebol am y canlyniadau sy'n deillio o gamweithredu o'r fath ac am unrhyw golled a ddaw i'r elusen o ganlyniad. Pan fydd y comisiwn yn ystyried achosion posibl o dor-ymddiriedaeth neu dor-ddyletswydd neu gamymddwyn neu gamreoli arall, gall ystyried tystiolaeth bod yr ymddiriedolwyr wedi rhoi'r elusen, ei hasedau neu ei buddiolwyr mewn perygl o niwed neu risg ormodol drwy beidio â dilyn arfer da.

# 2. Cwynion: beth y mae angen i chi ei wneud a beth y mae angen i chi ei wybod

## 2.1 Beth ydw i'n ei wneud os oes cwyn gennyf am elusen?

### Yr ateb byr

Yn y rhan fwyaf o achosion dylech siarad â'r elusen am eich pryder cyn cysylltu â'r Comisiwn. Efallai yr hoffech godi mater na fyddai'r Comisiwn am roi sylw iddo (gweler isod) felly bydd yn briodol i chi gysylltu â'r ymddiriedolwyr yn uniongyrchol.

Gall rhai pryderon fod yn ddifrifol iawn ac efallai na fydd yn briodol i siarad â'r ymddiriedolwyr yn gyntaf, er enghraifft, dylai gweithgarwch troseddol mewn elusen gael ei adrodd i'r heddlu ar unwaith ac i'r Comisiwn heb roi gwybod i'r elusen yn gyntaf.

Nid oes rhaid i chi ddweud wrthym am faterion rydych wedi'u trafod gyda'r elusen ac y cawsoch ymateb boddhaol iddynt.

---

### Yn fwy manwl

Ymddiriedolwyr elusen sy'n gyfrifol am redeg eu helusen ac mae'n deg ac yn briodol i chi godi'ch pryder gyda nhw yn gyntaf. Mae'n rhoi cyfle i'r ymddiriedolwyr esbonio unrhyw gamddealltwriaeth neu unioni pethau os yw rhywbeth wedi mynd o'i le.

Mae'r materion y dylid eu cyfeirio at sylw'r ymddiriedolwyr yn cynnwys:

- polisïau ar gyfer rhedeg yr elusen neu benderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan yr ymddiriedolwyr sydd o fewn eu pwerau ac o fewn y gyfraith elusennau
- achosion o wasanaeth gwael gan elusen
- materion cyflogaeth, er enghraifft, diswyddo annheg
- anghydfodau cytundebol
- anghydfodau mewnol o fewn yr elusen lle mae ymddiriedolwyr wedi'u penodi'n briodol (gweler ein canllaw **Gwrthdaro yn eich Elusen: Datganiad o ymagwedd gan y Comisiwn Elusennau**)

Felly, yn ymarferol, ni fyddwn yn gweithredu ar y cwynion canlynol:

- pan fyddwch yn anghytuno â phenderfyniadau'r ymddiriedolwyr ac mae'r penderfyniadau hynny wedi cael eu gwneud yn briodol o fewn y gyfraith a darpariaethau dogfen lywodraethol yr elusen
- datrys anghytuno mewnol ynghylch polisi neu strategaeth elusen oherwydd mae'r rhai sy'n ymwneud â'r mater yn gyfrifol am ddatrys materion eu hunain
- achosion o wasanaeth gwael gan elusen lle nad oes unrhyw risg cyffredinol i'w gwasanaethau, ei chleientiaid neu ei hadnoddau
- os yw'r gwyn yn codi o anghydfod elusen ac mae ymddiriedolwyr wedi'u penodi'n briodol sy'n gyfrifol am ddelio â'r materion a adroddwyd
- os nad yw'r mater a adroddwyd yn peri risg difrifol i'r elusen, ei hasedau neu ei buddiolwyr
- os yw'r mater yn cael ei drin gan gorff statudol neu gorff arolygu arall, neu'n gyfrifoldeb y corff hwnnw

- os oes anghytundeb ynghylch telerau neu ddarparu contract
- os yw achos cyfreithiol yn cael ei ddwyn gan barti arall yn erbyn elusen, gan gynnwys achosion o gasglu dyledion (ac eithrio yn yr achosion prin hynny lle mae'r Twrnai Gwladol wedi gofyn i ni wneud hynny yn benodol)

Os yw'ch cwyn yn ymwneud ag anghydfod o fewn elusen, defnyddiwch ein canllaw pellach **Gwrthdaro yn eich elusen; datganiad o ymagwedd gan y Comisiwn Elusennau**.

Mae ein rhan ni yn y broses o ystyried cwynion wedi'i chyfyngu i faterion lle mae risg difrifol o niwed sylweddol i fuddiolwyr, asedau, gwasanaethau neu enw da elusen. Mae adran B2 yn esbonio beth yw materion difrifol neu sylweddol a beth rydym yn ei wneud yn eu cylch.

## 2.2 Beth yw materion difrifol a beth fydd y Comisiwn yn ei wneud yn eu cylch?

### Yr ateb byr

Rydym wedi nodi'r mathau o faterion sy'n rhai difrifol yn ein barn ni ac a allai beri risg sylweddol i fuddiolwyr, asedau, gwasanaethau neu enw da'r elusen yn ein **Fframwaith Risg**. Mae'r Fframwaith hefyd yn nodi unrhyw ffactorau y mae angen i ni eu hystyried wrth asesu pa mor ddifrifol yw'r risgiau ac a yw'n briodol i ni weithredu.

Yn dibynnu ar yr amgylchiadau gallwn benderfynu peidio â gweithredu ymhellach. Os nad ydym yn gweithredu byddwn yn dweud wrthych pam ac yn cadw cofnod o'ch adroddiad.

Byddwn yn rhoi gwybod i chi os ydym yn gweithredu i ymdrin â phryder difrifol ond ni fyddwn yn rhoi manylion i chi am y ffordd rydym yn cyflawni ein gwaith achos. Byddwn yn rhoi gwybod i chi am y canlyniad pan fyddwn wedi gorffen ein hachos. Weithiau ni fyddwch yn clywed gennym am beth amser.

---

### Yn fwy manwl

Mae'r materion y teimlwn sy'n ddifrifol neu'n arwyddocaol ac mae'n annerbyniol i unrhyw elusen, ei hymddiriedolwyr, ei gweithwyr neu ei hasiantau ymwneud â nhw, wedi'u nodi yn y rhestr isod. Nid yw'r materion wedi'u rhestru yn unrhyw drefn blaenoriaeth:

- colled ariannol sylweddol i'r elusen
- niwed difrifol i fuddiolwyr ac, yn arbennig, buddiolwyr agored i niwed
- camddefnyddio elusen at ddibenion terfysgaeth (gan gynnwys cysylltiadau elusennau â therfysgaeth neu gefnogi terfysgaeth, boed hynny'n ariannol neu fel arall, cysylltiadau â sefydliadau gwaharddedig neu gamddefnyddio elusen i feithrin eithafiaeth)
- troseddoldeb difrifol a/neu weithgarwch anghyfreithlon o fewn elusen neu sy'n cynnwys elusen (gan gynnwys twyll a gwyngalchu arian)
- elusennau wedi'u sefydlu at ddiben anghyfreithlon neu amhriodol
- elusennau sy'n cael eu defnyddio'n fwriadol er mantais breifat arwyddocaol
- pan fydd amheuaeth ddifrifol ynghylch annibyniaeth elusen
- achosion arwyddocaol eraill o fethu â chydymffurfio, tor-ymddiriedaeth neu gamddefnyddio a fydd yn cael effaith arwyddocaol fel arall ar ffydd a hyder y cyhoedd yn yr elusen ac elusennau yn gyffredinol

Os oes honiadau o weithgarwch neu bryderon troseddol am faterion treth caiff y materion hyn eu hymchwilio gan yr awdurdodau priodol, h.y. yr heddlu neu HMRC. Mae ein rôl mewn materion o'r fath wedi'i chyfyngu i ystyried a fu unrhyw gamymddygiad neu gamreoli wrth weinyddu'r elusen gan ganiatáu i weithgarwch anghyfreithlon neu afreoleidd-dra treth ddigwydd. Hefyd gall fod angen i ni weithredu i ddiogelu eiddo'r elusen. Mae adran B4 yn ystyried adrodd i ni ac i awdurdodau eraill fel yr heddlu am faterion troseddol.

Mae'n bwysig darparu tystiolaeth i gefnogi'ch pryder; esbonnir hyn yn adran B3. Os nad oes unrhyw dystiolaeth i gefnogi cwyn neu honiad mae'n bosib na fyddwn yn cymryd unrhyw gamau pellach.

Ni fyddwn yn gweithredu ar honiadau, sïon neu farn nas profwyd - byddai gwneud hyn ac, o ganlyniad, amharu ar waith yr elusen yn annheg i'r elusen honno, ei gweithgareddau, ei defnyddwyr a'i buddiolwyr.

## 2.3 Sut ydw i'n adrodd mater i'r Comisiwn Elusennau?

### Yr ateb byr

Mae **ffurflen ar-lein** benodol gennym ar gyfer adrodd am faterion difrifol. Mae'r ffurflen yn cynnig modd i ni ystyried y materion yn gyflymach na thrwy ddulliau eraill. Hyd yn oed pan fyddwch yn ffonio neu'n ysgrifennu i adrodd am bryderon byddwn yn gofyn i chi lenwi'r ffurflen ar-lein. Pan fyddwch yn cwblhau'r ffurflen, gwnewch yn siŵr bod yr holl wybodaeth gennych wrth law er mwyn i chi allu ei hanfon atom gyda'i gilydd.

---

### Yn fwy manwl

Dylech roi gwybodaeth i'n helpu i asesu eich cwyn yn fwy effeithiol a phenderfynu a oes unrhyw fater i ni ei ystyried. Pan fyddwch yn defnyddio'r ffurflen i adrodd am faterion nodwch y canlynol:

- enw'r elusen a'i rhif gofrestru os ydych yn ei wybod
- crynodeb o'r mater, gan amlinellu'r ffeithiau'n glir. Gallai hyn gynnwys:
  - pwy sy'n ymwneud â'r mater a'i swydd yn yr elusen
  - a yw'r person neu'r bobl dan sylw yn ymwneud â'r elusen o hyd
  - yr effaith y mae'r mater wedi'i chael ar yr elusen a/neu ei buddiolwyr
  - y camau y mae'r elusen wedi'u cymryd yn sgîl yr hyn a ddigwyddodd
  - a fu unrhyw gyhoeddusrwydd neu weithredu cyfreithiol am y mater
  - eich cysylltiad (os o gwbl) â'r elusen
  - unrhyw dystiolaeth arall sy'n cefnogi'ch pryderon

Hefyd, atodwch y canlynol:

- copïau o unrhyw dystiolaeth ddogfennol i gefnogi eich pryderon
- unrhyw dystiolaeth ddogfennol sy'n dangos eich ymdrechion i gael yr elusen i roi sylw i'ch pryderon
- copïau o unrhyw ohebiaeth flaenorol rhyngoch chi ag unrhyw gorff cyhoeddus arall am y materion hyn

Rydym yn cymryd pob adroddiad o bryderon ynghylch elusennau o ddifrif a dylech fod yn ymwybodol ei bod yn dramgwydd troseddol i roi gwybodaeth i ni, yn fwriadol neu'n ddi-hid, sy'n anghywir neu'n gamarweiniol.

Dywedwch wrthym am y mater unwaith yn unig. Fel rheol ni fyddwn yn ailystyried cwynion yr ydym eisoes wedi delio â nhw oni bai bod yr amgylchiadau wedi newid yn sylweddol neu mae gwybodaeth newydd arwyddocaol wedi dod i'r amlwg.

## 2.4 Oes rhaid i mi adrodd am faterion difrifol i unrhyw un arall?

### Yr ateb byr

Oes, mewn rhai achosion. Os ydych yn amau achos o dwyll, trosedd arall neu os ydych yn credu bod gweithgarwch gan derfysgwyr yn gysylltiedig â'r elusen.

---

### Yn fwy manwl

Yn ogystal â rhoi gwybod i'r Comisiwn Elusennau dylech:

- roi gwybod i'r heddlu os ydych yn credu bod gweithgarwch troseddol yn digwydd o fewn elusen. Os ydych wedi rhoi gwybod i'r heddlu eisoes cyn rhoi gwybod i ni, rhowch rif cyfeirnod y drosedd i ni, enw'r heddwas a'r orsaf heddlu syn delio â'ch cwyn
- dylech adrodd am achos o dwyll a amheuir sy'n gysylltiedig ag elusen drwy ddefnyddio **Gwasanaeth Adrodd Ar-lein Action Fraud** neu ffoniwch 0300 123 2040
- os oes gwybodaeth gennym am weithgarwch posibl gan derfysgwyr sy'n gysylltiedig ag elusen dylid ei adrodd i Linell Gymorth Atal Terfysgaeth ar 0800 789 321

## 2.5 A fydd elusen yn cael gwybod pwy sy'n cwyno?

### Yr ateb byr

Byddwn yn parchu cyfrinachedd cyn belled ag y gallwn, gan roi ystyriaeth briodol i'ch hawliau o dan ddeddfwriaeth diogelu data, rhyddid gwybodaeth a hawliau dynol. Fodd bynnag, gall fod rhai achosion pan fydd eich hunaniaeth yn cael ei datgelu neu fe ddaw i'r amlwg.

---

### Yn fwy manwl

Wrth adrodd am eich pryder, dywedwch:

- a allwn ddweud wrth yr elusen mai chi sy'n cwyno

ac

- a allwn roi eich cwyn ac unrhyw dystiolaeth rydych wedi'i rhoi yn uniongyrchol i'r elusen

Fel rheol, ni fyddwn yn anfon copi o'r ffurflen gwyno (neu unrhyw bapurau eraill sy'n dangos pwy ydych) i'r elusen oni bai eich bod wedi rhoi eich cydsyniad. Fodd bynnag, mae hawl gan yr elusen wybod natur yr honiadau sy'n cael eu gwneud yn ei herbyn. Hefyd, mae hawl gan unrhyw un gael gwybod natur y dystiolaeth y mae'r gŵyn yn seiliedig arni. Er y byddwn yn cymryd pob cam i geisio sicrhau nad yw'ch enw yn cael ei roi heb eich cydsyniad, efallai y bydd natur yr honiadau neu'r dystiolaeth sydd gennym yn awgrymu eu ffynhonnell.

Gall fod rwymedigaeth arnom hefyd i ddatgelu gwybodaeth o dan ddeddfwriaeth rhyddid gwybodaeth oni bai bod eithriad yn gymwys ac mae'n briodol iddo gael ei arfer. Mae Adran Dd yn rhoi manylion ar gyfer y Comisiynydd Gwybodaeth a chewch wybod mwy am ddeddfwriaeth rhyddid gwybodaeth ganddo.

Mewn achosion pan ddefnyddiwn ein pwerau statudol i gynnal ymchwiliad, fel arfer byddwn yn cyhoeddi Datganiad o Ganlyniadau Ymchwiliad ar ôl ei gwblhau. Gall gwybodaeth o ymchwiliadau gael ei defnyddio hefyd mewn achosion llys. Bydd dogfennau a gwybodaeth a gesglir at ddibenion ymchwiliad yn cael eu trin yn gyfrinachol, hyd nes ein bod yn cyhoeddi'r Datganiad o Ganlyniadau Ymchwiliad (er hyd yn oed bryd hynny, bydd peth wybodaeth yn parhau i gael ei heithrio rhag cael ei datgelu) neu oni bai bod eu hangen o dan Orchymyn Llys yn ystod achos cyfreithiol.

Mae hawliau a diogelwch statudol gan rai chwythwyr chwiban o dan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998, ac mae hawliau a rhwymedigaethau datgelu gan y rhai sy'n cynnal archwiliad ariannol neu archwiliad annibynnol o gyfrifon elusennau i'r Comisiwn o dan rai amgylchiadau. Esbonnir yr hawliau a'r rhwymedigaethau hyn yn Adran 3 ac 4.

# 3. Gwneud cwyn o dan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 a elwir hefyd yn ‘chwythu’r chwiban’

## 3.1 Beth mae’r Ddeddf hon yn ei wneud?

### Yr ateb byr

Mae’r Ddeddf yn diogelu gweithwyr rhag triniaeth niweidiol neu rhag cael eu herlid gan eu cyflogwr os ydynt, er lles y cyhoedd, yn datgelu drwgweithredu.

Mae’n diogelu’r rhan fwyaf o weithwyr yn y sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, ond nid yw’n gymwys i weithwyr proffesiynol hunangyflogedig (heblaw yn y GIG), gweithwyr gwirfoddol (gan gynnwys ymddiriedolwyr elusen a gwirfoddolwyr elusennau), heddweision neu’r gwasanaethau cudd-wybodaeth. Byddai rhywun sydd wedi’i gyflogi gan elusen yn gallu defnyddio darpariaethau’r Ddeddf.

Mae’r adran hon yn rhoi trosolwg o’r gweithdrefnau datgelu o’r Ddeddf lle y gallent fod yn gymwys i weithwyr elusennau. Os hoffech wneud datgeliad mae’n bosibl yr hoffech geisio cyngor cyfreithiol annibynnol neu wybodaeth bellach gan y sefydliadau a restrir yn adran Dd.

---

### Yn fwy manwl

Mae’r Ddeddf yn diogelu gweithwyr mewn sawl ffordd, er enghraifft:

- pan fydd gweithiwr yn cael ei ddiswyddo oherwydd ei fod wedi gwneud datgeliad gwarchodedig (gweler adran C4) caiff hyn ei drin fel achos o ddiswyddo annheg
- mae gweithwyr yn cael yr hawl i beidio â bod yn destun unrhyw ‘niwed’ gan eu cyflogwyr ar y sail eu bod wedi gwneud datgeliad gwarchodedig
- mae gweithwyr yn gallu cyflwyno cwyn i dribiwnlys cyflogaeth os ydynt yn cael niwed o ganlyniad i wneud datgeliad gwarchodedig

Mae’r Ddeddf yn ceisio cynyddu atebolrwydd sefydliadau yn y sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol trwy gyflwyno diogelwch i weithwyr sy’n chwythu’r chwiban ar y drwgweithredu o fewn y sefydliad neu sy’n ymwneud â’r sefydliad, ac mae elusennau (fel rhan o’r sector gwirfoddol) wedi’u cynnwys o fewn awdurdodaeth y Ddeddf.

## 3.2 Beth sydd gan hyn i'w wneud â'r Comisiwn Elusennau?

### Yr ateb byr

Yn ein rôl fel rheoleiddiwr elusennau Cymru a Lloegr rydym yn gweithio i sicrhau bod ymddiriedolwyr elusen yn cydymffurfio â'u rhwymedigaethau cyfreithiol o ran rheoli gweinyddiad eu helusennau. Mae'r Comisiwn yn 'berson rhagnodedig' o dan y Ddeddf sy'n ei ganiatáu i dderbyn datgeliadau gan weithwyr elusennau.

Dylai'r rhai sy'n gwneud datgeliadau i'r Comisiwn wneud yn siŵr eu bod yn gwneud hynny yn y ffordd a nodwyd yn y Ddeddf.

---

### Yn fwy manwl

Gall gweithwyr sy'n ymwybodol o ddrwgweithredu o fewn elusen neu gorff anelusennol (os yw hyn yn cynnwys gweinyddu elusennau neu gronfeydd elusennol) ddatgelu gwybodaeth i ni am weinyddu elusennau a chronfeydd a roddwyd, neu a ddelir, at ddibenion elusennol. Mae'n rhaid iddynt godi eu pryderon yn unol â darpariaethau'r Ddeddf.

Er mwyn i ddatgeliad gael ei ddiogelu gan ddarpariaethau'r Ddeddf (gweler adran 3.4), rhaid iddo ymwneud â materion sy'n 'gymwys' i'w diogelu o dan y Ddeddf (gweler adran 3.3).

Bydd datgeliadau sy'n cael eu gwneud i'r Comisiwn am yr elusen yn cael eu hystyried fel rhan o'n drefn gwyno.

## 3.3 Beth yw datgeliad 'cymwys'?

### Yr ateb byr

Mae datgeliad cymwys yn un sy'n darparu gwybodaeth am faterion penodol a amlinellir gan y Ddeddf ac mae'r person sy'n ei datgelu yn credu'n rhesymol eu bod yn wir.

---

### Yn fwy manwl

Rhaid i'r datgeliad ymwneud â:

- thramgwydd troseddol
- torri rhwymedigaeth gyfreithiol
- aflwyddiant cyfiawnder
- perygl i iechyd a diogelwch unrhyw unigolyn
- niwed i'r amgylchedd
- cuddio gwybodaeth yn fwriadol sy'n tueddu i ddangos unrhyw un o'r pum mater uchod

Er mwyn gwneud datgeliad cymwys rhaid i'r gweithiwr gredu'n rhesymol fod yr wybodaeth sy'n cael ei darparu yn tueddu i ddangos bod un neu ragor o'r digwyddiadau yn y rhestr bwledi uchod yn digwydd nawr, wedi digwydd yn y gorffennol, neu'n debygol o ddigwydd yn y dyfodol.

Rhaid i rai amodau fod yn gymwys er mwyn sicrhau bod y datgeliad yn 'warchodedig'. Nodir y rhain yn yr adran nesaf.

## 3.4 Beth yw datgeliad ‘gwarchodedig’?

### Yr ateb byr

Mae’n ddatgeliad cymwys a wneir gan y gweithiwr, gydag amodau arbennig, i sicrhau ei fod wedi’i ddiogelu gan y Ddeddf.

---

### Yn fwy manwl

Bydd datgeliad cymwys i’r Comisiwn Elusennau yn ddatgeliad ‘gwarchodedig’ ar yr amod bod y gweithiwr:

- yn gwneud y datgeliad mewn ewyllys da
- yn credu’n rhesymol bod y methiant perthnasol yn ymwneud â gweinyddu elusennau a chronfeydd a roddir, neu a ddelir at ddibenion elusennol mewn modd priodol

ac

- yn credu’n rhesymol bod yr wybodaeth a ddatgelir, ac unrhyw honiad sydd wedi’i gynnwys ynddo, yn wir yn y bôn.

Gall gweithwyr adrodd yn uniongyrchol i’r Comisiwn pan fydd pryderon ganddynt sydd wedi’u cynnwys o fewn y disgrifiadau uchod. Mae’n bwysig nodi os yw gweithiwr yn cael ei erlid am wneud datgeliad i’r Comisiwn Elusennau, mae unrhyw honiad sydd ganddo neu ganddi o dan y Ddeddf yn honiad yn erbyn y cyflogwr ac nid yn erbyn y Comisiwn.

## 3.5 Oes unrhyw wybodaeth arall am y Ddeddf?

### Yr ateb byr

Oes, mae gwybodaeth ar gael ar wefan gwasanaethau’r llywodraeth GOV.UK a hefyd gan yr elusen Public Concern at Work.

---

### Yn fwy manwl

Mae Public Concern at Work yn rhoi cyngor cyfrinachol am ddim i weithwyr sydd â phryderon am ddrwgweithredu yn y gweithle. Mae llinell gyngor chwythu’r chwiban ganddynt ar 020 7404 6609. Mae **canllawiau ar-lein ar gyfer y Ddeddf** i’w gweld ar ei wefan.

Mae’r wefan GOV.UK yn rhoi gwybodaeth am gyflogaeth a phroblemau yn y gwaith, gan gynnwys sut i ‘chwythu’r chwiban’ ar ddrwgweithredu neu gamarfer. Gweler ei ganllaw ar **ddiogelu chwythwyr chwiban**.

## 3.6 Os ydw i am wneud adroddiad o dan y Ddeddf i’r Comisiwn am elusen, pwy ydw i’n cysylltu ag ef/hi?

Dylech ddefnyddio’r **ffurflen ar-lein** a gwneud hi’n glir bod eich cwyn yn cael ei gwneud o dan reoliadau chwythu’r chwiban y Ddeddf.

# 4. Adroddiadau gan archwilwyr ariannol ac archwilwyr annibynnol

## 4.1 Pam mae hyn wedi'i gynnwys yn y canllaw hwn?

### Yr ateb byr (Gofyniad cyfreithiol)

Mae dyletswyddau cyfreithiol ar archwilwyr ariannol ac archwilwyr annibynnol sy'n archwilio cyfrifon elusennau sy'n gwmnïau ac sydd heb fod yn gwmnïau i adrodd am rai materion i ni.

---

### Yn fwy manwl

Mae Deddf Elusennau 2011 yn gosod dyletswydd statudol ar archwilwyr annibynnol neu archwilwyr ariannol elusennau sy'n gwmnïau a heb fod yn gwmnïau i ddweud wrthym am unrhyw faterion sydd o 'arwyddocâd perthnasol' yn eu barn nhw i arfer ein pwerau o dan:

- adran 46 o Ddeddf Elusennau 2011 i gychwyn ymchwiliadau

neu

- adran 76 o Ddeddf Elusennau 2011 i weithredu er mwyn diogelu elusennau

## 4.2 Beth yw'r materion o arwyddocâd perthnasol?

### Yr ateb byr

Mae'r rhain yn debygol o fod yn faterion sy'n ymwneud â gweithgarwch troseddol neu anghyfreithlon difrifol neu ddigwyddiadau difrifol a allai effeithio ar elusen, ei hasedau, ei buddiolwyr neu ei henw da.

---

### Yn fwy manwl

Bydd dyletswydd yr archwiliwr ariannol neu'r archwiliwr annibynnol i adrodd am faterion o arwyddocâd perthnasol yn codi'n bennaf pan fyddant yn nodi:

- achos a amheuir neu achos go iawn o fethu â chydymffurfio â'r gyfraith a rheoliadau

neu

- achosion arwyddocaol o dor-ymddiriedaeth neu fethu â chyflawni'r dyletswyddau a roddir ar ymddiriedolwyr elusen o dan y gyfraith elusennau

Mae'r materion sydd o arwyddocâd perthnasol ym marn y Comisiwn Elusennau yn cynnwys y rhai:

- awgrymu anonestrwydd neu dwyll sy'n creu colled sylweddol o gronfeydd neu asedau elusennol, neu risg mawr iddynt
- dangos methiant rheolaethau mewnol, gan gynnwys methiannau yn null llywodraethu'r elusen sydd wedi esgor, neu a allai esgor ar golled sylweddol neu gamddefnyddio cronfeydd elusennol, neu risg mawr i gronfeydd elusennol nawr neu yn y gorffennol
- arwain at wybod neu amau bod cronfeydd yr elusen neu gronfeydd elusennol wedi cael eu defnyddio i wyngalchu arian neu fod cronfeydd o'r fath yn enillion troseddau cyfundrefnol difrifol neu fod yr elusen yn gyfrwng i weithgarwch troseddol

- arwain at gredu neu amau bod yr elusen, ei hymddiriedolwyr, ei gweithwyr cyflogedig neu ei hasedau wedi ymwneud neu'n cael eu defnyddio i gefnogi terfysgaeth neu sefydliadau gwaharddedig yn y DU neu'r tu allan i'r DU
- gyda thystiolaeth sy'n awgrymu bod y ffordd y mae'r elusen yn ymgymryd â'i gwaith ynghylch gofal a lles buddiolwyr, yn golygu bod y buddiolwyr hynny wedi bod â risg arwyddocaol o gael eu cam-drin neu eu camddefnyddio
- lle mae gofynion deddfwriaethol neu ymddiriedolaethau'r elusen yn cael eu torri mewn ffordd sylweddol neu'n gyson
- lle mae Gorchymyn neu gyfarwyddyd a wnaed gan reoleiddiwr elusennau o dan bwerau statudol wedi cael ei dorri'n fwriadol neu'n sylweddol, gan gynnwys diarddel ymddiriedolwr elusen, gwahardd trafodiad neu weithgaredd arbennig neu roi cydsyniad ar delerau arbennig sy'n cynnwys asedau neu rwymedigaethau elusennol arwyddocaol
- os yw datganiad yr archwiliwr ariannol i'r ymddiriedolwyr, pan fydd yr archwiliwr yn rhoi'r gorau i'w swydd, yn cynnwys materion y dylid eu hadrodd i'r ymddiriedolwyr

## 4.3 Oes canllawiau eraill ar gael i archwilwyr ariannol neu archwilwyr annibynnol?

### Yr ateb byr

Oes, mae canllawiau ar gael i archwilwyr ariannol ac archwilwyr annibynnol i'w cynorthwyo i benderfynu a ddylent adrodd i ni am rywbeth y mae ganddynt rwymedigaeth gyfreithiol i'w adrodd neu mae er lles y cyhoedd i wneud hynny.

---

### Yn fwy manwl

Dylai archwilwyr ariannol gyflawni eu gwaith yn unol â Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (ISAs) fel y'u mabwysiadwyd gan Gyngor Adrodd Ariannol (FRC) mewn perthynas â Nodyn Ymarfer 11: Archwilio Elusennau. Rhoddir arweiniad penodol o fewn Nodyn Ymarfer 11 ar y ffactorau sydd i'w hystyried wrth weithredu'r ddyletswydd adrodd neu adrodd er lles y cyhoedd. Lluniwyd y canllaw hwn trwy ymgynghori â ni. Gallwch gael gopïau drwy **wefan FRC**.

Dylai archwilwyr annibynnol gyfeirio at y cyfarwyddiadau a'r nodiadau canllaw sydd i'w gweld yn ein canllaw **Archwiliad Annibynnol o Gyfrifon Elusennau: Canllaw Archwilwyr Annibynnol (CC32)**. Mae Adran Dd y canllaw hwn yn rhoi manylion am y ddyletswydd i adrodd am faterion i ni.

# 5. Rhestr o dermau technegol a ddefnyddir yn y canllaw hwn

Anghydfod**:** yng nghyd-destun y canllaw hwn mae anghydfod yn golygu anghytundeb o fewn elusen sy'n esgor ar farnau gwahanol, brwydr i reoli'r elusen a hyd yn oed chwalu'r dulliau o reoli'r elusen yn effeithiol o ddydd i ddydd.

Archwiliad annibynnol: mae'n fath o archwiliad allanol o gyfrifon elusen, llai manwl nag archwiliad ariannol ffurfiol.

Dogfen lywodraethol: dogfen gyfreithiol yw hon sy'n amlinellu dibenion yr elusen ac, fel arfer, sut y caiff ei gweinyddu. Gall fod yn weithred ymddiriedolaeth, cyfansoddiad, memorandwm ac erthyglau cymdeithasu, ewyllys, trawsgludiad, Siarter Frenhinol, Cynllun y Comisiwn neu ddogfen ffurfiol arall.

Sefydliad gwaharddedig: sefydliadau yw'r rhain a enwir yn y gyfraith fel sefydliadau sy'n ymwneud â gweithgarwch gan derfysgwyr neu sy'n gysylltiedig â gweithgarwch o'r fath. Mae'n dramgwydd troseddol i fod yn aelod o sefydliad gwaharddedig, neu wahodd pobl i gefnogi sefydliad gwaharddedig.

Ymchwiliad: pan gaiff ei ddefnyddio yng nghyd-destun y canllaw hwn mae'n golygu ymchwiliad ffurfiol a gychwynnwyd o dan adran 46 o Ddeddf Elusennau 2011. Mae'n cynnig modd i ni ystyried sut y gweinyddir materion elusen ac, os oes angen, defnyddio ein pwerau i ddiogelu eiddo'r elusen.

Ymddiriedolwyr elusen: dyma'r bobl sy'n gwasanaethu ar gorff llywodraethu'r elusen ac maent yn gyfrifol am reolaeth a gweinyddiad yr elusen yn gyffredinol. Gall fod teitlau eraill ganddynt, megis ymddiriedolwyr, cyfarwyddwyr, aelodau bwrdd, llywodraethwyr neu aelodau pwyllgor.